# Crynodeb gweithredol

Cyhoeddwyd y papur ymgynghori a oedd yn nodi ein cynigion ar gyfer cynllun pensiwn barnwrol diwygiedig ar 16 Gorffennaf 2020. Roedd yn gwahodd sylwadau ar y cynnig i ddarparu cynllun wedi'i foderneiddio ar gyfer croniadau yn y dyfodol o fis Ebrill 2022 ymlaen, yn amodol ar amser seneddol ac ar gymeradwyo'r ddeddfwriaeth angenrheidiol. Bwriad y diwygiadau arfaethedig oedd cyflawni'r ymrwymiad a wnaeth y llywodraeth i ddatblygu ateb seiliedig ar bensiynau i'r problemau recriwtio a chadw difrifol a nodwyd gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch Swyddogion (SSRB) yn ei Adolygiad Mawr o'r Strwythur Cyflogau Barnwrol, a gyhoeddwyd yn 2018.

Fe wnaethom gynnig y byddai llawer o nodweddion y cynllun diwygiedig yn cyd-fynd â phrif egwyddorion diwygiadau pensiwn 2015, gan gadw rhai elfennau allweddol o'r cynllun pensiwn a nodir yn Neddf Pensiynau Barnwrol ac Oedran Ymddeol 1993 (JUPRA).

Cawsom gyfanswm o 39 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gan gynnwys 16 gan gymdeithasau barnwrol (sy'n cynrychioli cyfran sylweddol o'r farnwriaeth). Ar y cyfan, roedd yr ymatebion a gawsom yn cydnabod y byddai'r cynllun diwygiedig yn cyfrannu at ddatrys y problemau recriwtio a chadw rydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Roedd yr ymatebion hefyd yn gadarnhaol ynghylch nifer o nodweddion arfaethedig y cynllun diwygiedig a ddisgrifiwyd yn aml fel gwelliant sylweddol ar y Cynllun Pensiwn Barnwrol Newydd (NJPS), a gyflwynwyd yn 2015.

Cawsom hefyd rai ymatebion negyddol ar rai nodweddion. Yn benodol, mynegwyd barn gref am ein cynnig i gyflwyno cyfradd cyfrannu unffurf o 4.26% ar gyfer aelodau. Roedd nifer o gymdeithasau barnwrol yn bryderus am yr effaith y byddai'r newid hwn yn ei chael ar y cyflog y byddai'r barnwyr sydd yng Ngrŵp Cyflog 7 cynllun NJPS ar hyn o bryd, yn ei gael i fynd adref gyda nhw. Rydym felly'n rhoi'r opsiwn i farnwyr liniaru'r goblygiadau hyn o symud i'r cynllun diwygiedig, gan ganiatáu iddynt gyfrannu llai at y cynllun yn gyfnewid am ostyngiad cymesur yn y gyfradd gronni. Bydd yr opsiwn hwn yn para am gyfnod penodol o dair blynedd, ac ar ôl hynny bydd barnwyr sydd wedi dewis yr opsiwn yn symud i'r gyfradd cyfrannu unffurf o 4.26%.

Ac eithrio'r nodwedd ychwanegol hon, rydym yn bwriadu rhoi'r cynllun diwygiedig ar waith yn unol â'r cynigion a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd gennym ym mis Gorffennaf 2020. Credwn fod yr ymatebion sydd wedi dod i law yn rhoi cefnogaeth gadarn i'r cynllun diwygiedig ac yn ategu ein barn y bydd yn helpu i gyflawni ein prif amcan o ddatrys y materion recriwtio a chadw difrifol a nodwyd gan yr SSRB.